6.1


**Pennaeth Addysg**
**Head of Education**
Arwyn Thomas

Gofynnwch am/Ask for: Arwyn Thomas
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: AT/AAS
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
arwynthomas@gwynedd.gov.uk


CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Medi 30, 2015

**I sylw: Corff Llywodraethol a Phenaethiaid Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig**

**<u>Ymgynghori ar Bolisi Arfaethedig Dyraniad Gwarchodaeth Ychwanegol i Ysgolion</u>**

Annwyl gyfaill

Rwyf wedi adolygu'r polisi dyraniad gwarchodaeth ychwanegol i Ysgolion ac o'r farn bod angen ychwanegu cymal sy'n cysylltu'r dyraniad gwarchodaeth ychwanegol i faint balansau'r ysgol.

**Y Polisi Gwarchodaeth Presennol**

<u>Ysgolion Cynradd</u> : Os yw nifer disgyblion ysgol trwy'r fformiwla dyrannu cynradd yn cynhyrchu llai na 2 athro, mae'r polisi gwarchodaeth yn darparu dyraniad ychwanegol ar gyfer cynyddu'r nifer athrawon i 2, sef Pennaeth ac Athro.
Mewn Ysgolion sydd gyda llai na 15 disgybl, y polisi yw darparu dyraniad gwarchodaeth ychwanegol er mwyn cyflogi Pennaeth a Chymhorthydd Dosbarth.

<u>Ysgolion Uwchradd</u> : Os yw nifer disgyblion ysgol trwy'r fformiwla dyrannu uwchradd yn cynhyrchu llai na 18.17 athro, mae'r polisi gwarchodaeth yn darparu dyraniad ychwanegol ar gyfer cynyddu'r nifer athrawon i 18.17.

**Addasiad i'r Polisi**

Yr addasiad rwyf yn ei gynnig yw lleihau'r dyraniad gwarchodaeth yn gyfatebol i'r elfen balansau sydd dros 5%, gan ddefnyddio'r swm balansau ar ddiwedd y flwyddyn gyllidol ddiweddaraf gafodd ei gyhoeddi.

Amgaeaf daenlen sy'n amlygu'r sefyllfa bresennol ac effaith y cynnig (ar hyn o bryd ar sail gwir nifer disgyblion Medi 2014 - bydd angen addasu gyda gwir nifer disgyblion Medi 2015 pan mae'r ystadegau llawn ar gael).

Gofynnaf am ymateb eich ysgol i'r cynnig erbyn dydd Gwener, 6 Tachwedd, 2015,yn dilyn hynny byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion ar 18 Tachwedd, 2015, gydag argymhelliad y Fforwm yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet 15 Rhagfyr, 2015.

Os bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn cymeradwyo'r cynnig mi fydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2016/17.

**Ymateb yr Ysgol**

O safbwynt y cynnig i ychwanegu cymal sy'n cysylltu'r dyraniad gwarchodaeth ychwanegol i faint balansau'r ysgol , a fyddwch yn datgan os yw'r Ysgol -

O blaid y cynnig :

Yn erbyn y cynnig :

Dim barn :

Sylwadau :

***Dychwelch eich ymateb i Annie Sanson (anniesanson@gwynedd.gov.uk) erbyn dydd Gwener, 6 Tachwedd, 2015.***

Diolch

*Arwyn Thomas*

**Arwyn Thomas**
**Pennaeth Addysg**